

2009: BLWYDDYN Y DATHLU

Yn nhref Y Bala ar y 10fed o Dachwedd, 1934, cynhaliwyd "Cynhadledd ac Arddwest" ac yno y sefydlwyd Cymdeithas Gerdd Dant Cymru.

75 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'r Gymdeithas "yma o hyd" ac yn haeddu dathliad gwerth chweil yn 2009!

DAN Y WENALLT

Un o'r prif achlysuron fydd perfformiad o 'Dan y Wenallt', drama enwog Dylan Thomas a gyfieithwyd i'r Gymraeg mor wych gan T. James Jones. Ond bydd hwn yn wahanol i unrhyw berfformiad blaenorol, oherwydd fe osodwyd y cyfan ar gerdd dant gan Bethan Bryn.

Fe ellir yn awr gyhoeddi y bydd y perfformiad yn digwydd yn Neuadd Fawr Aberystwyth ar Fehefin 27, 2009 - ac mae'n well i bawb sicrhau eu tocyn yn fuan!

Gwahoddwyd tri pharti cerdd dant - Chwiban, Parti'r Greal a Pharti'r Gromlech - i greu un côr mawr, ac wrth gwrs, fe fydd cast helaeth o unigolion hefyd. Bydd y gwaith trefnu a'r cyfarwyddo yng ngofal Cwmni Arad Goch.

Mae'n fwriad hefyd i wneud perfformiad arall ym Mhabell Lân Eisteddfod Y Bala - mae'n debyg tua 6.00 y prynhawn, yn y bwllch yna rhwng sesiwn y prynhawn a chyngerdd y pafiliwn.

CHWECH YN ENNILL ETHOLIAD

Tra bu pobl America yn brysur yn ethol Arlywydd newydd, mae aelodau'r Gymdeithas wedi bod yn pleidleisio mewn etholiad pwysicach o lawer!

Y chwech a lwyddodd ddod i'r chwech uchaf, i wasanaethu am dair blynedd ar y Pwyllgor Gwaith, yw:

Mona Meirion, Iwan Morgan, Haf Morris, Nia Rowlands, Nia Tudur a Carys Williams. Penderfynwyd hefyd i gyfethol Gwenan Gibbard, Nia Clwyd a Rhodri Harries.

Y bwriad yw recordio'r cyfeiliant offerynnol i gyd ymlaen llaw, a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i'r eithaf er mwyn hwyluso'r perfformiad.

GUTO a CHRISTINE

Bydd y Gymdeithas Gerdd Dant hefyd yn cyfrannu tuag at "gyhyrchiad aml-gyfyngol" yn Eisteddfod Y Bala, yn seiliedig ar gerdd dant. Cyfuniad fydd hwn o gerddoriaeth gan Guto Puw a gwaith celf gan Christine Mills. Gwthio ffiniau, siwr o fod!

CÔR MAWR

Clywyd sibrydion hefyd fod bwriad i greu Côr cerdd dant anferth gyda'r nod o godi to'r pafiliwn - wel, dyna'r gobaith beth bynnag. Ac un syniad arall sydd ar y gweill yw sesiwn 'Cyflwyno Bardd' drwy gyfrwng cerdd dant..

Mae gennym bob rheswm felly i edrych ymlaen yn eiddgar at 2009!



Dau wr doeth o Benllyn sy'n ein cynrychioli ar bwyllgorau lleol Eisteddfod Y Bala 2009 - Arfon Williams a Dan Puw

ATGOFION ALED

Tybed a oes cyfrinachau o'r byd cerdd dant ar fin cael eu datgelu i'r byd? Mae un o'n cerdd dantwyr amlycaf, Aled Lloyd Davies, ar fin cyhoeddi ei atgofion! Bydd y gyfrol 'Pwyso ar y Giât' yn cael ei chyhoeddi ar Ragfyr 12 mewn noson arbennig yn Ysgol Maes Garmon.

Edrychwn ymlaen yn fawr. Ac os ydych chi am wybod y sgandals i gyd, wel prynwch y llyfr!

Rhannu'r telynu

Bellach mae gan y Gymdeithas Gerdd Dant 29 o delynu, i'w llogi gan bwy bynnag sy'n gwneud cais amdanynt.

Mae hyn yn cynnwys tair telyn Geltaidd fechan newydd sbon.

Bob blwyddyn mae'r telynu yn cael eu gosod (am am y cyfnod sy'n cyfateb i'r flwyddyn ysgol, o fis Medi i fis Medi) a hynny am bris rhesymol iawn, sef £385 y flwyddyn am y telynu mawr a £220 am y telynu bach.

Ond y gwyn yw fod y ceisiadau yn brin, felly manteisiwch! Os ydych chi am wneud cais, cysylltwch â Carys Williams, 38 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF3 2QB



Swyddog telynu'r Gymdeithas, Tecwyn Jones, a Chadeirydd yr is-Bwyllgor Telynu, Carys Williams

RHODD HAEL JOAN

Annwyl, brwd, gweithgar - dyna rai geiriau a ddaw i'r cof wrth gofio am y ddiweddar Joan Wyn Hughes. Mae gan y Gymdeithas Gerdd Dant reswm da iawn i'w chofio gyda diolchgarwch, oherwydd yn ei hewyllys fe adawodd £14,000 i'r Gymdeithas. Y gobaith yw defnyddio'r arian i hybu cerdd dant ym myd addysg - yn sicr, dyna fyddai dymuniad Joan ei hun.

Golygwyd a chynhyrchwyd y rhifyn hwn gan Arfon Gwilym

Y CERDD DANTIWR



Bwletin Newyddion Cymdeithas Gerdd Dant Cymru

Tachwedd 2008

Croeso i ŵyl Dyffryn Clwyd!

Ar ôl yr holl waith paratoi a chodi arian, ar ôl yr holl edrych ymlaen, fe ddaeth y dydd! Bydd croeso cynnes i Bafiliwn Rhyll i bobl o bob rhan o Gymru, ar gyfer diwrnod gorlawn o gystadlu.

I Leah Owen a'i phwyllgor brwd, bydd yr ŵyl yn uchafbwynt cryn ddwy flynedd o waith. "Mi fues i'n lwcus iawn o gael pwyllgor oedd yn cynnwys cymaint o wahanol ddoniau - a chymaint o wahanol oed, amryw o bobl ifanc. Mae pob un wedi tynnu ei bwysau yn ardderchog," meddai.

"Mae'r gwaith y mae ambell i unigolyn wedi'i wneud yn arbennig - pobl fel Wendy Lloyd Jones (y Trysorydd) a Haf Evans a Mai Roberts (yr Ysgrifenyddion).

"Do, mi fuodd yn waith caled, ond rydan ni wedi cael lot fawr o hwyl hefyd, yn gwneud pob math o bethau, o rasio chwid i feicio noddedig, canu carolau, ac yn y blaen. Mae'r dyffryn drwyddo draw wedi cyfrannu'n dda, ac mae Cyngor Sir Ddinbych a chwmni Ynni Gwynt wedi bod yn help mawr i ni gyrraedd ein targed."

Arwydd o'r brwdfrydedd yw'r niferoedd uchel o gystadleuwyr - a'r côr cerdd dant o 60 o bobl leol a sefydlwyd yn arbennig.

"Dwi'n hapus iawn efo'r ffordd mae popeth wedi dod at ei gilydd."



Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr ŵyl, Leah Owen, yn trafod y trefniadau gyda Chadeirydd y Gymdeithas Gerdd Dant, Carys Jones

COFIWCH.... am y rhaglen o bigion yr ŵyl ar S4C nos Sadwrn, Tachwedd 22... ...a hefyd am y rhaglen ar Radio Cymru fore dydd Sul (trannoeth yr ŵyl) am 10.45.

Ar y diwrnod cyn yr ŵyl hefyd bu Teledu Avanti yn recordio deunydd ar gyfer mwy nag un rhifyn o 'Dechrau Canu' - gyda 600 o blant yr ardal ac oedolion hefyd yn cymryd rhan.

GO DDA BOBOL DYFFRYN CLWYD!

HEI! WYT TI'N AELOD?

Os oes gennyt ddiddordeb mewn cerdd dant ac yn dymuno cyfrannu at y gwaith o hybu'r grefft, wel ymaeloda heddiw!

TELERAU ARBENNIG I BOBL IFANC: DIM OND £5!

(Pawb sydd mewn addysg llawn amser)

TELERAU i BAWB ARALL : £10

Mae ymaelodi yn hawdd ac yn rhad, a byddi'n rhan o un o gymdeithasau diwylliannol mwyaf blaengar Cymru!

Cerdd Dant ar y we

Ydi, mae'r hen grefft wedi cyrraedd yr unfed ganrif ar hugain! Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i'r eithaf er mwyn hybu cerdd dant - dyna'r nod.

Mae gwefan y Gymdeithas yn cynnwys y newyddion diweddaraf i gyd, rhestr testunau'r ŵyl, swyddogion y Pwyllgor Gwaith ac is-bwyllgorau, tipyn o hanes a datblygiad y grefft, a mwy.

Yn y dyfodol agos hefyd fe fydd Gwers Syml ar osod cerdd dant - y gyntaf erioed ar y we! Mae'r wefan yno, felly defnyddiwch hi!

www.cerdd-dant.org



Haf a'i Chist o Geinciau

Cwestiwn: Faint o geinciau cerdd dant sydd ar gael erbyn hyn?

Wel, yr ateb, coeliwch neu beidio yw dros 560! Cymharwch hyn gyda tua 100 ar y mwyaf oedd ar gael i'r hen do o gerdd dantwyr ganrif yn ôl. Y rheswm am y cynnydd, wrth gwrs, yw'r cyfansoddi mawr a fu ar geinciau newydd, yn enwedig o tua'r 70au ymlaen.

Os ydych yn aelod o bwyllgor sy'n llunio rhestr testunau eisteddfod neu wyl, neu yn chwilio am gainc addas at unrhyw ddiben, mae cael y fath ddewis yn fendith fawr. Ar y llaw arall fe all gormod o ddewis fod yn broblem hefyd!

Dyna pam y bydd y gyfrol 'Cist y Ceinciau' yn siwr o fod yn gaffaeliad mawr, oherwydd rhestr gyflawn sydd yma o'r holl geinciau cerdd dant a gyhoeddwyd erioed!

Fe rannwyd y rhestr yn wahanol adrannau - yn ôl hyd y ceinciau, eu hamseriad, nifer penillion i'r cylch, cywair llon neu leddf, ac

yn y blaen. Ceir rhestr ar wahân hefyd o bob cainc a gyhoeddwyd erioed, yn nhrefn yr wyddor. Ac wrth gwrs, fe nodir ym mha gyfrol neu ba rifyn o *Allwedd y Tannau* y cawsant eu cyhoeddi.

Y person a aeth ati i gyflawni'r dasg anferthol hon yw Haf Morris - gwraig sy'n enwog am fod yn fanwl a thrylwyr! Treuliodd oriau lawer ar y ffôn yn ymgynghori gyda chyfansoddwyr y ceinciau (er enghraifft, teulu y diweddar Llyfni Huws) i wneud yn siwr fod y wybodaeth i gyd yn gywir. Nid yw'n amlwg bob amser, er enghraifft, faint o benillion y gellir eu gosod mewn un 'cylch'.

"Dwi'n gobeithio y bydd y rhestr yn help i bawb sy'n gosod yn gyson - a dwi'n llawn sylweddoli y bydd raid diweddarau'r rhestr o hyd," meddai Haf. Mae'r gyfrol ar werth yn awr am £6.

Brwdfrydedd yng nghwrs gosod Pencerrig

- "Diolch am benwythnos hyfryd."
- "Mae'r cwrs yma yn wych!"
- "Dwi wedi dysgu cymaint mewn amser mor fyr"

Dim ond rhai o'r sylwadau a gafwyd ar ddiwedd y cwrs preswyl blynyddol ar osod cerdd dant, a gynhaliwyd yng Ngwesty Pencerrig ger Llanellwedd ym mis Medi.

Arweinwyr y cwrs eto eleni oedd Haf Morris, Alwena Roberts a Menna Thomas. Roedd 12 o bobl wedi cofrestru, y rhan fwyaf o ddigon o'r De a'r Canolbarth, ac yn amrywio'n fawr o ran oedran a phrofiad (rhai heb osod cerdd dant erioed o'r blaen). Roedd dwy o'r rhai iau â'u golwg ar ffolio TGAU a Safon Uwch, ac eraill yn syml am ddysgu mwy er mwyn gallu cyfrannu a hyfforddi yn eu hardaloedd.

Yn ogystal â gwersi, mae digon o gyfle i ymlacio ar y cwrs hefyd. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Dwynwen Jones, Llangadfan, a noson o gyd-ganu nos Sadwrn yng nghwmni Arfon Williams a Dylan Cernyw - y ddau 'faestro' fel y cawsant eu galw. Yn ôl un `deryn bach, roedd hi'n syndod fod rhai yn medru cadw'n effro ar y bore Sul ar ôl cael cymaint o flas ar gymdeithasu y noson cynt!

"Roedd cwrs 2008 yn dangos fod y grefft yn fyw ac yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol," meddai Haf Morris. "Un o'r cyrsiau mwyaf pleserus, ac yn sefyll allan yn y gyfres o gyrsiau gosod." *Gwylwch am fanylion y cwrs nesaf ymhen blwyddyn.*



Llywydd y Gymdeithas, Ann Williams, yn mynd trwy'i phethau yn y Cyfarfod Blynyddol

Dosbarth cerdd dant Pen Llŷn: Dysgu a mwynhau yr un pryd

Ers cryn chwech wythnos bellach bu mynychwyr tafarn y Fic, Llithfaen, yn clustfeinio mewn rhyfeddod ar y sŵn oedd yn dod o'r oruwch ystafell - sŵn criw o bobl yn ymlafnio uwchben gosodiadau cerdd dant!

Yn ôl un o'r tiwtoriaid, Einir Wyn Jones, daeth y cais gwreiddiol i gynnal cwrs 10 wythnos gan Llio Meirion. Bellach mae deg o bobl o bob oed yn dod i'r Fic yn rheolaidd ar nos Fercher, yn llawn brwdfrydedd ac yn benderfynol o

ddysgu mwy. Yn ôl Einir, mae hi a'i chyd-diwtoriaid, Alwena Roberts ac Iwan Morgan, wedi eu plesio'n fawr. "Mae rhai o'r criw yn cychwyn o'r cychwyn i bob pwrpas ac yn dod yn eu blaenau yn arbennig o dda. Mae rhai ohonyn nhw'n gerddorion da ac eisoes yn medru cyfansoddi gosodiadau ardderchog.

"Magu hyder iddyn nhw fedru gwneud eu hunain, dyna'r nod, a byddai'n wych o beth medru ehangu'r syniad yma i rannau eraill o Gymru," meddai.



Mae'r hen gorfannu `ma yn dipyn o gur pen.... Rhai o fynychwyr cwrs y Fic yn pendronni!

"Gallwn fod yn berson di-Gymraeg, heb ddim diddordeb mewn cerdd dant"

Hanes merch ifanc yn cael ei hennill at yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg - dyna a gafwyd gan Lywydd y Gymdeithas, Ann Williams, wrth annerch y Cyfarfod Blynyddol yn Aberystwyth ddechrau Hydref.

Soniodd fel yr oedd ei hen daid a nain wedi profi effeithiau andwyol y 'Welsh Not' yn ardal Ponciau, a'u penderfyniad i siarad Saesneg gyda'u plant. Pan oedd Ann yn blentyn yn ardal Maesteg, roedd mwy o Saesneg nag o Gymraeg i'w glywed ar yr aelwyd yn ei chartref - ond fe newidiodd hynny unwaith iddi ddechrau mynychu Ysgol Gymraeg Tŷ Derwen.

Pan ddaeth Ann i oed Ysgol Uwchradd, Ysgol Rhydfelen oedd yr ysgol uwchradd ddwyieithog agosaf, a golygai hynny deithio awr a hanner bob ffordd o Faesteg i Rydfelin (cyn dyddiau'r M4) - tair awr o deithio bob dydd!

Un peth oedd dod yn Gymraes Gymraeg, ond peth arall oedd cael ei thynnu i mewn i'r diwylliant, a cherdd dant yn arbennig. Soniodd am ddylanwad pobl fel Lili Richards, ac Eleri Owen yn arbennig, yn Ysgol Rhydfelen. Aeth Ann yn ei blaen i gystadlu a chael llwyddiant dro ar ôl tro fel unawdydd, mewn deuawd (gyda Dafydd Idris) ac mewn triawd (gydag Alwena Roberts a Menna Tomos).

Ers pedair blynedd bellach, Ann yw Prifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr, Penybont ar Ogwr, yn ennill rhagor o blant i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Roedd ei hanerchiad yn gwneud i lawer o aelodau'r Gymdeithas sylweddoli mor ffodus y buont i dderbyn yr holl bethau hyn ar blat, ar yr aelwyd gartref ac yn y gymdeithas y cawsant eu magu. Bu raid i rai frwydro ac aberthu i ennill y pethau hyn. Roedd ei geiriau hefyd yn dangos mor bwysig yw sêl unigolion ac mor bwysig yw pob mymryn o waith cenhadol a wneir.